



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3
Legislation Committee No. 3**

**Dydd Iau, 22 Hydref 2009
Thursday, 22 October 2009**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru): Cam 1
Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure: Stage 1

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor. Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Peter Black	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Christine Chapman	Llafur Labour
Helen Mary Jones	Plaid Cymru The Party of Wales
David Lloyd	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Fay Bowen	Clerc Clerk
Gwyn Griffiths	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Ruth Hatton	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Carys Jones	Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Members' Research Service

Dechreuodd y cyfarfod 2.14 p.m.
The meeting began at 2.14 p.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **David Lloyd:** Fe'ch croesawaf i gyfarfod Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd trafodion y prynhawn yma ynglŷn â'r Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru). **David Lloyd:** Welcome to this meeting of Legislation Committee No. 3 of the National Assembly for Wales. Our discussions this afternoon will be centred on the Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure.

[2] Yr ydym wedi derbyn ymddiheuriadau oddi wrth William Graham a Janice Gregory, ond ni fydd unrhyw un yn dirprwyo ar eu rhan. We have received apologies from William Graham and Janice Gregory, but there are no substitutions.

[3] Os bydd larwm tân yn canu, dylai'r Aelodau adael yr ystafell drwy'r allanfeydd tân penodol a dilyn cyfarwyddiadau'r tywyswyr a'r staff. Nid ydym yn disgwyl prawf tân y prynhawn yma. If the fire alarm sounds, Members should exit the room via the marked fire exits and follow the instructions of the ushers and staff. We do not expect a fire drill this afternoon.

[4] Dylai pawb ddiffodd eu ffonau symudol, eu galwyr a'u 'mwyar duon', gan eu bod yn amharu ar yr offer darlledu. All mobile phones, pagers and BlackBerrys should be switched off as they can interfere with the broadcasting equipment.

[5] Fel y gwyddoch erbyn hyn, y mae As you are all aware, the National Assembly

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu'n ddwyieithog. Mae clustffonau ar gael ar gyfer clywed cyfieithiad ar y pryd, a gellir hefyd addasu'r sain os ydych yn drwm eich clyw. Peidiwch â chyffwrdd y botymau ar y meicroffonau gan y gallai hynny ddiffodd y system, a chofiwch sicrhau bod y golau coch ar y meicroffon ymlaen cyn ichi ddechrau siarad. Mae'r cyfieithiad ar y pryd ar gael ar sianel 1, a darllediad gair-am-air i glywed y sain yn well ar sianel 0.

for Wales operates bilingually. Headphones are provided through which instantaneous translation may be received, and they can also be used to amplify the sound for those who are hard of hearing. Please do not touch the buttons on the microphones as this can disable the system, and please ensure that the red light is showing on the microphones before you start to speak. Interpretation is available on channel 1, and amplification of the sound is available on channel 0.

2.16 p.m.

Y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru): Cam 1 Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure: Stage 1

[6] **David Lloyd:** Diben y cyfarfod hwn yw i gytuno'n ffurfiol ar sut y bydd y pwyllgor yn mynd ati i graffu ar y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru). Gosodwyd y Mesur arfaethedig hwn gerbron y Cynulliad gan Elin Jones, Aelod Cynulliad a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, ar 19 Hydref 2009. Gwaith y pwyllgor hwn fydd i ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyhoeddi adroddiad ar hynny. Rhaid inni gwblhau ein gwaith a gosod ein hadroddiad gerbron y Cynulliad erbyn 18 Rhagfyr 2009 fan bellaf, yn unol â'r amserlen a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes.

David Lloyd: The purpose of this meeting is to formally agree on the committee's approach to the scrutiny of the Proposed Red Meat Industry (Wales) Measure. The proposed Measure was laid before the Assembly by Elin Jones, Assembly Member and Minister for Rural Affairs, on 19 October 2009. The role of this committee is to consider and report on the general principles of the proposed Measure. We must conclude our work and lay our report before the Assembly no later than 18 December 2009, in accordance with the deadline set by the Business Committee.

[7] Yr ydym wedi cael trafodaeth anffurfiol heddiw ynghylch sut y byddwn yn craffu ar y Mesur arfaethedig hwn, ac argymhellaf y dylid ystyried rhai pwyntiau wrth osod fframwaith i waith y pwyllgor.

We have had an informal discussion today on our approach to the scrutiny of this proposed Measure, and I suggest that a few points should be considered in deciding on the framework of the committee's work.

[8] Yn gyntaf, dylid ystyried yr angen am Fesur arfaethedig er mwyn cyflawni'r nod o gyflwyno darpariaeth statudol, drwy'r fframwaith ddeddfwriaethol, ar gyfer datblygu a hyrwyddo'r diwydiant cig coch yng Nghymru. Yn ail, dylid ystyried a yw'r Mesur arfaethedig yn cyflwyno'r amcanion a nodwyd. Yn drydydd, dylid cytuno ar brif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig ac ar eu haddasrwydd i gyflawni'r amcanion. Yn bedwerydd, dylid trafod y rhwystrau posibl rhag rhoi'r prif ddarpariaethau ar waith, ac a yw'r Mesur arfaethedig yn rhoi sylw i'r rhwystrau hyn. Yn olaf, dylid ystyried barn rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio o dan y trefniadau newydd. A ydych yn fodlon

First, we should consider the need for a proposed Measure to deliver the stated objective of making statutory provision, through a legislative framework, for the development and promotion of the Welsh red meat industry. Secondly, we should consider whether the proposed Measure achieves its stated objectives. Thirdly, we should agree the key provisions set out in the proposed Measure, and whether they are appropriate in order to deliver the objectives. Fourthly, we should discuss the potential barriers to the implementation of the key provisions, and whether the proposed Measure takes account of these potential barriers. Finally, we should consider the views of stakeholders who will

gyda'r dull hwn o weithio? Gwelaf eich bod yn fodlon. Diolch yn fawr.

have to work with these new arrangements. Are you content with this approach? I see that you are. Thank you very much.

[9] Ymhellach i hynny, a yw'r pwyllgor hefyd yn fodlon i ni wneud y canlynol: cyhoeddi galwad cyffredinol am dystiolaeth, gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig gan sefydliadau ac unigolion, a gwahodd rhanddeiliaid allweddol i roi tystiolaeth lafar dros yr wythnosau nesaf? A gytunwch â'r ffordd honno ymlaen? Gwelaf eich bod yn cytuno.

Further to that, is the committee also content for us to do the following: issue a general call for evidence, invite written submissions from organisations and individuals, and invite key stakeholders to give oral evidence over the next few weeks? Do you agree with that approach? I see that you are agreed.

[10] Yr ydych wedi gweld y rhestr o dystion posibl. A gytunwch â'r rhestr honno?

You have seen the list of possible witnesses. Are you content with that list?

[11] **Helen Mary Jones:** Yr ydym yn cytuno â'r gwelliannau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod preifat cyn y cyfarfod hwn.

Helen Mary Jones: We agree with the amendments that were agreed to in the private meeting before this public meeting.

[12] **David Lloyd:** Diolch, Helen. A oes unrhyw sylwadau eraill? Gwelaf nad oes sylwadau pellach.

David Lloyd: Thank you, Helen. Are there any further comments? I see that there are no further comments.

[13] Yr ydych hefyd wedi gweld yr amserlen, a gwelaf fod pawb yn hapus â hi. Sylweddolaf fod pethau o'u hanfod yn dynn, ond mae hynny am resymau sydd y tu allan i'n rheolaeth. A oes unrhyw sylwadau pellach cyn i mi ddod â'r pwyllgor i ben? Gwelaf fod pawb yn hapus.

You have also seen the timetable, and I see that everyone is content with it. I realise that things are necessarily tight, but that is due to reasons that are outside of our control. Are there any further comments before I bring this meeting to an end? I see that everyone is content.

[14] Dyddiad y cyfarfod nesaf yw dydd Iau, 5 Tachwedd 2009, pan fydd y pwyllgor yn cynnal ei sesiwn dystiolaeth lafar gyntaf. Yn naturiol, fe fyddwn yn ysgrifennu at y tystion posibl yfory, a byddwn yn disgwyl derbyn eu tystiolaeth yn y dyddiau nesaf. Diolch yn fawr iawn i chi am eich presenoldeb, a diolch am y cyfieithu.

The date of the next meeting is Thursday, 5 November 2009, when the committee will conduct its first oral evidence session. Naturally, we will write to the possible witnesses tomorrow, and we will expect to receive their written evidence in the next few days. Thank you very much for your attendance, and thank you for the interpretation.

*Daeth y cyfarfod i ben am 2.20 p.m.
The meeting ended at 2.20 p.m.*